

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Digwyddiadau Archwilio Cymru – Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn dweud wrthyf sut y mae Archwilio Cymru yn prosesu gwybodaeth a gesglir amdanoch pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer a/neu'n bresennol yn un o ddigwyddiadau Archwilio Cymru fel cynrychiolydd, hwylusydd neu gyfrannwr. Mae'r term 'Archwilio Cymru' yn y ddogfen hon yn cyfeirio at 'Swyddfa Archwilio Cymru'.

Pwy ydym ni a beth yr ydym ni'n ei wneud

Mae gwaith Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnwys archwilio sut y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu'r staff a'r adnoddau i'w alluogi i gyflawni ei waith. Archwilio Cymru yw'r nod masnach ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, a dyma'r enw ymbarél ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Y cyfreithiau perthnasol

Rydym yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Rydym yn prosesu eich data personol wrth ddarparu gwasanaethau o dan adran 19 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Beth fyddwn yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth

Rydym yn casglu gwybodaeth gennych fel y gallwn ni gynllunio a rheoli ein digwyddiadau ac yna hwyluso ac annog rhannu gwybodaeth ac arfer gorau rhwng y gynulleidfa a chyfranwyr. Gall digwyddiadau gynnwys cynadleddau, gwaith ymgysylltu, neu gyfarfodydd a digwyddiadau eraill. O ganlyniad i ganllawiau Covid-19, cynhelir digwyddiadau ar-lein hyd y gellir rhagweld.

Bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych chi ar gael i'r Tîm Cyfathrebu a, lle bo angen, i staff eraill Archwilio Cymru. Efallai y byddwn yn rhannu rhywfaint o wybodaeth am y rhai a fydd yn bresennol gyda chyfranwyr a hwyluswyr cyn y digwyddiad er mwyn helpu i gynllunio'r digwyddiad a'i gynnwys. Gallwn gynnwys enwau a sefydliadau'r cynrychiolwyr yn rhan o'r pecyn cynrychiolwyr ar gyfer y digwyddiad.

Ar ôl y digwyddiad byddwn yn cysylltu â chi i gynnal arolwg ac efallai y byddwn yn rhannu rhestr o'r rhai a oedd yn bresennol (gan gynnwys enw, swyddogaeth, sefydliad a chyfeiriad e-bost) i hwyluso'r gwaith o gyfnewid gwybodaeth ac adnoddau. **Os nad ydych chi eisiau bod ar y rhestr hon, rhaid i chi roi gwybod i ni cyn diwedd y digwyddiad.** Efallai y byddwn yn cysylltu â chi drwy e-bost i roi gwybod i chi am ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

Byddwn yn cadw eich data personol hyd ddiwedd y cyfnodau a nodir yn ein Polisi Rheoli Dogfennau a Chofnodion, a byddwn yn cadw eich data'n ddiogel yn unol â'n Polisi Diogelwch Gwybodaeth.

Lluniau, Recordio a Fideos

Efallai y byddwn yn recordio a/neu yn ffilmio areithiau, cyflwyniadau a rhai trafodaethau ac wedyn yn eu cyhoeddi drwy wefan Archwilio Cymru a thrwy sianel YouTube a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol Archwilio Cymru megis Facebook, Twitter a LinkedIn. Gallai siaradwyr hefyd rannu'r fideos gyda'u sefydliadau a'u cysylltiadau.

Efallai y byddwn hefyd yn tynnu lluniau y gellid eu cyhoeddi ar wefan Archwilio Cymru a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol megis Facebook, Twitter a LinkedIn.

Yn ystod digwyddiadau a seminarau rhithwir, efallai y byddwn yn recordio'r holl gyfarfod ac y bydd hi'n bosibl adnabod y rhai sy'n bresennol a'r rhai sy'n cyflwyno mewn recordiadau, drwy ddelweddau, lleferydd neu destun. Rydym yn defnyddio fideo-gynadledda i gyflwyno ein digwyddiadau. Os byddwch mewn digwyddiad rhithwir, gallai'r rhai sy'n gweithredu'r feddalwedd gasglu gwybodaeth gennych a gaiff ei defnyddio ganddynt yn unol â'u hysbysiadau preifatrwydd.

Digwyddiadau yn y cnawd

Os ydych yn siarad neu'n cyflwyno mewn digwyddiad ac nad ydych chi eisiau cael eich recordio nac i luniau ohonoch gael eu tynnu, **rhaid i chi roi gwybod i ni'n ysgrifenedig cyn y digwyddiad.**

Digwyddiadau rhithwir

Os ydych yn cyflwyno neu'n bresennol mewn digwyddiad rhithwir, ac nad ydych chi eisiau cael eich recordio, **rhaid i chi roi gwybod i ni cyn y digwyddiad.**

Os caiff y cyfarfod ei recordio, byddwn yn atgoffa pawb sy'n cymryd rhan o hyn ar ddechrau'r cyfarfod, a bydd hyn yn rhoi cyfle i chi newid eich gosodiadau (e.e. diffodd eich camera).

Eich hawliau

O dan y gyfraith diogelu data mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol gyfredol a gedwir amdanoch ac i wrthwynebu prosesu data sy'n achosi difrod a gofid diangen a sylweddol.

I gael copi o'r wybodaeth bersonol sydd gennym ni amdanoch neu i drafod unrhyw wrthwynebiad neu bryderon, ysgrifennwch at y Swyddog Gwybodaeth, Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ neu anfonwch neges e-bost: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru. Gallwch hefyd gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data drwy ddefnyddio'r un cyfeiriad.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am eich hawliau o dan ddeddfau diogelu data neu os hoffech chi gwyno ynglŷn â sut yr ydym yn ymdrin â'ch data personol, cewch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ysgrifennu at: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF, neu drwy e-bost casework@ico.gsi.gov.uk neu dros y ffôn 01625 545745.